

# Pecyn Gwybodaeth CThEF ynghylch Parthau Buddsoddi

Mae'r wybodaeth a nodir yn y ddogfen hon yn gywir ar **26 Chwefror 2026**



# Cynnwys

Title	Rhif y dudalen
<b>Trosolwg o Barthau Buddsoddi</b>	<b>3</b>
Beth yw Parthau Buddsoddi?	4
Ble mae Parthau Buddsoddi'r DU?	5
Safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi	6
<b>Rhyddhadau treth y Parthau Buddsoddi</b>	<b>8</b>
Beth yw rhyddhadau treth y Parthau Buddsoddi?	9
Rhyddhadau treth y Parthau Buddsoddi – y DU	10
Rhyddhadau treth y Parthau Buddsoddi – datganoledig	11
Enghreifftiau o fuddion safleoedd treth arbennig	12
Sut i hawlio rhyddhadau treth y Parthau Buddsoddi	13
<b>Rhagor o wybodaeth</b>	<b>14</b>
Cwestiynau ac Atebion	15
Cysylltiadau o ran arweiniad	16

# Trosolwg o Barthau Buddsoddi

# Beth yw Parthau Buddsoddi?

Mae Parthau Buddsoddi wedi'u cynllunio fel ymyraethau dan arweiniad lleol i yrru cenhadaeth twf y llywodraeth drwy hyrwyddo buddsoddiad newydd mewn sectorau sy'n hanfodol i'r Strategaeth Ddiwydiannol Fodern, gan greu swyddi medrus iawn mewn meysydd sydd wedi tanberfformio'n economaidd yn y gorffennol.

Gall Parthau Buddsoddi ym Mhrydain Fawr elwa ar fynediad at ymyriadau o £160 miliwn dros 10 mlynedd y gellir eu defnyddio'n hyblyg rhwng gwariant a gostyngiadau treth.

Bydd wyth o Parthau Buddsoddi yn Lloegr, dau yn yr Alban, a dau yng Nghymru.

Fel rhan o'r pecyn y cytunwyd arno i adfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, bydd y llywodraeth yn gweithio gyda'r Weithrediaeth i sefydlu Parth Buddsoddi Uwch werth £150 miliwn ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Bydd llywodraeth leol a sefydliadau ymchwil yn gallu dewis o ddewislen hyblyg o ymyriadau, gan gynnwys y cynnig treth, wrth ddylunio eu cynnig Parth Buddsoddi.

Os bydd rhywle yn dewis peidio ag ymgymryd â rhyddhadau treth, yna bydd cronfa arian mwy ar gael iddynt.

# Ble mae Parthau Buddsoddi'r DU?

Mae wyth Awdurdod Maerol Cyfunedig wedi cael eu dewis i gynnal Parthau Buddsoddi yn Lloegr:

- De Swydd Efrog
- Gorllewin Swydd Efrog
- Dinas-Ranbarth Lerpwl
- Manceinion Fwyaf
- Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Gogledd-ddwyrain Lloegr
- Cwm Tees

Mae dwy Bartneriaeth Economaidd Ranbarthol (REPs) wedi cael eu dewis yn yr Alban i gynnal Parthau Buddsoddi: Dinas-Ranbarth Glasgow a Gogledd-ddwyrain yr Alban (Aberdeen a Swydd Aberdeen).

Mae dau Gyd-bwyllgor Corfforedig (CJC) wedi cael eu dewis i gynnal dau Barth Buddsoddi yng Nghymru: Caerdydd a Chasnewydd (De-ddwyrain Cymru) a Sir y Fflint a Wrecsam (Gogledd-ddwyrain Cymru).

Bydd y manylion ynghylch y Parth Buddsoddi Uwch yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu cyhoeddi unwaith y byddant ar gael. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r dull o weithredu'r polisi arfaethedig, ewch i weld [prospectws y polisi Parth Buddsoddi Uwch yng Ngogledd Iwerddon](#).

# Safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi

Mae safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi yn ardaloedd diffiniedig lle gall busnesau fanteisio ar ystod o ryddhad treth. Gall pob Parth Buddsoddi gael hyd at dri safle treth dynodedig.

Mae angen i safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi fodloni meini prawf penodol, ac arddangos bod y safleoedd yn rhai isddatblygedig gan fod y rhyddhadau treth wedi'u dylunio er mwyn ysgogi gweithgarwch newydd a datblygiad tir.

Ni fydd pob Parth Buddsoddi yn cynnwys safleoedd treth arbennig. Ar hyn o bryd, mae pedwar Parth Buddsoddi yn Lloegr wedi optio i gael safleoedd treth arbennig;


- **Gogledd-ddwyrain**
- **Gorllewin Canolbarth Lloegr**
- **Dinas-Ranbarth Lerpwl**
- **Dwyrain Canolbarth Lloegr**

Mae un Parth Buddsoddi yng Nghymru wedi optio i gael safleoedd treth arbennig; Parth Buddsoddi **Sir y Fflint a Wrecsam**

Mae dau Barth Buddsoddi yn yr Alban wedi optio i gael safleoedd treth arbennig: **Dinas-Ranbarth Glasgow a Gogledd-ddwyrain yr Alban**

Gallwch ddod o hyd i fapiau o'r safleoedd treth Parth Buddsoddi sydd wedi'u dynodi ar [GOV.UK](https://www.gov.uk)

# Safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi



# **Rhyddhadau treth y Parthau Buddsoddi**

# Beth yw rhyddhadau treth y Parthau Buddsoddi?

Gall busnesau cymwys sydd mewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi hawlio ystod o ryddhadau treth, gan gynnwys lwfansau cyfalaf uwch ar gyfer gwariant ar offer a pheiriannau, lwfans strwythurau ac adeiladau uwch, a rhyddhad rhag cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) i gyflogeion newydd.

Mae rhyddhad hefyd ar gael ar Dreth Dir y Tollau Stamp mewn Parthau Buddsoddi yn Lloegr. Gan fod rhai rhyddhadau treth wedi cael eu datganoli yng Nghymru a'r Alban, mae Llywodraeth yr Alban yn ystyried cynnig rhyddhad penodol ar gyfer Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau mewn Parthau Buddsoddi yn yr Alban, a fydd yn gofyn am osod deddfwriaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig Treth Trafodiadau Tir (LTT) penodol i Parthau Buddsoddi yng Nghymru.

Yn ogystal, bydd yr awdurdodau lleol sy'n gwesteia'r safleoedd treth Parth Buddsoddi yn cynnig rhyddhad dewisol rhag ardrethi busnes, neu ardrethi annomestig, er mwyn lleihau'r gost ymhellach i fusnesau sy'n eu lleoli eu hunain yno.

**Mae'r cynnig treth mewn Parthau Buddsoddi ond ar gael mewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi dynodedig. Ni fydd pob Parth Buddsoddi yn cynnwys safleoedd treth arbennig.**

Er mwyn dysgu a yw'ch busnes yn gymwys i hawlio rhyddhadau treth mewn safle treth arbennig Parth Buddsoddi, ewch i ddarllen yr arweiniad perthnasol ar GOV.UK. Mae cysylltiadau at yr arweiniad ynghylch rhyddhadau treth uniongyrchol ar dudalen 16.

# Rhyddhadau treth y Parthau Buddsoddi – y DU

Gall cyflogwyr cymwys sydd â safle busnes mewn safle treth arbennig un o'r Parthau Buddsoddi ddynodedig gymhwyso **cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 eilaidd ar gyfradd sero** ar enillion cyflogeion newydd cymwys y mae disgwyl iddynt dreulio 60% neu fwy o'u hamser gwaith ar y safle treth. Mae modd defnyddio'r gyfradd hon ar enillion pob cyflogai cymwys newydd, hyd at £25,000 y flwyddyn fesul cyflogai am 36 mis.

Gall cymhwysra ar gyfer y rhyddhad ddechrau o'r dyddiad y dynodir y safle treth arbennig hyd at 30 Medi 2034, mewn safleoedd treth arbennig ledled Cymru, yr Alban a Lloegr. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r arweiniad ar [hawlio rhyddhad Yswiriant Gwladol mewn safleoedd treth arbennig](#) sydd ar gael ar GOV.UK.

Mae **lwfansau strwythurau ac adeiladau uwch** ar gael i gwmnïau sy'n adeiladu neu'n adnewyddu strwythurau ac adeiladau ar gyfer defnydd dibreswyl mewn safle treth arbennig Parth Buddsoddi.

Mae'r lwfans hwn yn seiliedig ar y lwfans strwythurau ac adeiladau presennol, ond bydd yn rhoi rhyddhad ar gyfradd uwch o 10% o'i chymharu â'r gyfradd genedlaethol bresennol o 3%. Gallwch hawlio 10% o'r gwariant cymhwysol Parth Buddsoddi bob blwyddyn os ydych yn bodloni'r amodau angenrheidiol. Gallwch wneud hyn am hyd at 10 mlynedd o ddyddiad dechrau cyfnod y lwfans.

Gall y lwfans hwn gael ei hawlio ar gyfer gwariant cymhwysol a ysgwyddwyd o'r dyddiad y dynodir y safle treth arbennig hyd at 30 Medi 2034, mewn safleoedd treth arbennig ledled Cymru, yr Alban a Lloegr. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r arweiniad ar [hawlio rhyddhad lwfans strwythurau ac adeiladau uwch mewn safleoedd treth arbennig](#) sydd ar gael ar GOV.UK.

Mae **lwfansau cyfalaf uwch** ar gael i gwmnïau sy'n buddsoddi mewn asedion offer a pheiriannau cymhwysol sy'n newydd. Mae'r lwfans hwn yn lwfans cyfalaf uwch o 100% (a elwir hefyd yn lwfans blwyddyn gyntaf) ar gyfer offer neu beiriannau i'w defnyddio'n bennaf mewn safle treth arbennig Parth Buddsoddi.

Gall y lwfans hwn gael ei hawlio ar gyfer gwariant cymhwysol a ysgwyddwyd o'r dyddiad y dynodir y safle treth arbennig hyd at 30 Medi 2034, mewn safleoedd treth arbennig ledled Cymru, yr Alban a Lloegr. I ddysgu rhagor, ewch i'r arweiniad ar [hawlio rhyddhad lwfansau cyfalaf uwch mewn safleoedd treth arbennig](#) sydd ar gael ar GOV.UK.

Bydd **rhyddhad ardrethi annomestig neu ryddhad ardrethi busnes llawn** ar gael i fusnesau newydd cymwys o fewn safle treth arbennig Parth Buddsoddi, ac i rai busnesau presennol penodol sy'n ehangu. Bydd yn gymwys am 5 mlynedd o'r pwynt y bydd y buddiolwr yn cael rhyddhad am y tro cyntaf, ac mae modd ei hawlio o'r dyddiad y daw dynodiad safle treth i rym tan 30 Medi 2034. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r arweiniad ar [Rhyddhad ardrethi busnes y Parthau Buddsoddi](#) sydd ar gael ar GOV.UK.

# Rhyddhadau treth y Parthau Buddsoddi y DU wedi'u parhau a rhyddhadau treth datganoledig

Mae rhyddhad rhag **Treth Dir y Tollau Stamp (SDLT)** ar gael wrth brynu unrhyw dir neu adeilad sydd mewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi yn Lloegr, cyn belled â bod y tir neu'r adeilad yn cael ei brynu a'i ddefnyddio at ddibenion masnachol cymhwysol.

Gallwch hawlio rhyddhad llawn rhag SDLT ar gyfanswm y pris prynu os yw o leiaf 90% o'r pris prynu ar gyfer tir neu adeiladau cymhwysol. Os yw llai na 90% o'r pris prynu ar gyfer tir neu adeiladau cymhwysol, gallwch hawlio rhyddhad ar y rhan o'r SDLT ar gyfer y tir neu'r adeiladau sy'n gymwys, cyhyd â bod y pris ar gyfer y tir neu'r adeiladau cymhwysol yn 10% neu fwy o gyfanswm y pris. Ni allwch hawlio unrhyw ryddhad os yw llai na 10% o gyfanswm y pris prynu ar gyfer tir neu adeiladau cymhwysol.

Gall y rhyddhad hwn gael ei hawlio o'r dyddiad y dynodir safle treth arbennig, hyd at fis Medi 2034, mewn safleoedd treth arbennig dynodedig ledled Lloegr. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r arweiniad ar [hawlio rhyddhad rhag SDLT mewn safleoedd treth arbennig](#) sydd ar gael ar GOV.UK.

Mae Llywodraeth yr Alban yn cynnig rhyddhad penodol ar gyfer **Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (LBTT)** ar gyfer rhai trafodion dibreswyl cymhwysol sy'n cynnwys tir ac adeiladau mewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi yn yr Alban.

Mae'n ofynnol i ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer hyn gael ei gosod gerbron Senedd yr Alban a'i chymeradwyo wedyn cyn bod unrhyw ryddhad yn gallu bod ar gael. O ystyried hyn oll, mae'r amserlen i'w chadarnhau.

Bydd rhagor o fanylion am gynigion Llywodraeth yr Alban yn cael eu darparu maes o law, ond at ddibenion cynllunio, disgwylir y byddai unrhyw ryddhad ar gael am gyfnod o ddeng\* mlynedd. Gall manylion y rhyddhad fod yn wahanol i'r rhyddhad rhag SDLT, yn seiliedig ar fanylion penodol dull gweithredu'r Alban.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhyddhad penodol rhag **Treth Trafodiadau Tir (TTT)** ar drafodiadau tir perthnasol o fewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi yng Nghymru lle bo'r eiddo hwnnw i'w ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch masnachol cymhwysol.

Gall y rhyddhad hwn gael ei hawlio o'r dyddiad y dynodir safle treth arbennig dynodedig, hyd at fis Medi 2034, mewn safleoedd treth arbennig dynodedig o fewn Parth Buddsoddi Sir y Fflint ac Wiltshire.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i LLYW.CYMRU ac edrych ar [ryddhad safle treth arbennig ar gyfer Treth Trafodiadau Tir: arweiniad technegol | LLYW.CYMRU](#)

\*Cyn belled â bod deddfwriaeth yn cael ei gosod

# Enghreifftiau o fuddion safleoedd treth arbennig

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut y gallai buddion y safle treth fod yn berthnasol mewn gwahanol sefyllfaoedd.

## Enghraifft 1 – Prynu tir ac adeiladu adeilad yn Lloegr:

Mae busnes yn talu £800,000 am dir sy'n gyfan gwbl o fewn safle treth arbennig Parth Buddsoddi, ond mae £200,000 (25%) o'r swm a dalwyd yn ymwneud â thir na fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn ffordd gymhwysol.

Mae hyn yn golygu bod 75% yn cael ei dalu am dir Parth Buddsoddi sydd i'w ddefnyddio mewn ffordd gymhwysol. Mae Treth Dir y Tollau Stamp yn cael ei gostwng 75% o gyfanswm y dreth sy'n ddyledus am y pryniant cyfan.

Yna, mae'r busnes yn adeiladu ffatri ar y rhan o'r tir sy'n llwyr o fewn y safle treth arbennig ar gost o £900,000. Ymrwymwyd i'r holl gontractau adeiladu ar ôl y dyddiad y dynodwyd y safle treth arbennig Parth Buddsoddi, ac mae'r ffatri yn cael ei gwblhau ac ar gael i'w ddefnyddio at ddiben dibreswyl ym mis Mawrth 2025. Yna gall y busnes hawlio lwfansau strwythurau ac adeiladau uwch o 10%.

## Enghraifft 2 – Prynu offer a pheiriannau newydd:

Mae busnes yn prynu offer a pheiriannau newydd sy'n costio £300,000 ym mis Mawrth 2025. Maen nhw'n cael eu gosod fel nodweddion annatod mewn ffatri newydd, y cwblhawyd y gwaith adeiladu ar ei chyfer ar 22 Mawrth 2025.

Roedd y ffatri wedi'i lleoli mewn safle treth arbennig Parth Buddsoddi ar yr adeg gwnaethoch brynu'r offer a'r peiriannau.

Mae'r busnes yn paratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth. Yn y cyfnod trethadwy hyd at 31 Mawrth 2025, gall hawlio'r lwfans cyfalaf uwch ar gyfer costau llawn yr offer a'r peiriannau hyn (£300,000).

## Enghraifft 3 – Cyfraniadau Yswiriant Gwladol:

Mae busnes yn recriwtio 10 o gyflogeion newydd ym mis Mawrth 2025. Mae disgwyl i bob un ohonynt dreulio rhywfaint o'u hamser yn gweithio yn ffatri newydd y busnes, sydd wedi'i leoli mewn safle treth arbennig Parth Buddsoddi. Mae'r cyflogeion wedi'u rhannu'n ddau grŵp:

Grŵp A – Mae disgwyl i bump o'r staff dreulio hanner eu hamser (50%) yn gweithio yn y ffatri newydd, a'r hanner arall mewn lleoliad arall y tu allan i'r safle treth. Bydd pob un yn ennill £20,000 y flwyddyn.

Grŵp B – Mae disgwyl i'r pump arall dreulio eu holl amser yn gweithio yn y safle treth, ac mae pob un yn ennill £30,000 y flwyddyn.

**Ni all** y busnes ddefnyddio cyfradd sero o gyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1 eilaidd ar gyfer cyflogeion Grŵp A gan nad ydynt yn treulio o leiaf 60% o'u hamser yn y safle treth.

**Gall** y busnes ddefnyddio cyfradd sero o CYG Dosbarth 1 eilaidd ar gyfer Grŵp B am y 36 mis cyntaf o gyflogaeth, ond dim ond ar enillion hyd at £25,000 pob blwyddyn dreth ar gyfer pob cyflogai.

# Sut i hawlio rhyddhadau treth y Parthau Buddsoddi

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amlinellu sut i hawlio pob rhyddhad treth uniongyrchol – am ragor o wybodaeth, ewch i GOV.UK:

- Gall rhyddhad rhag Treth Dir y Tollau Stamp yn Lloegr gael ei hawlio drwy gyflwyno Ffurflen Treth Trafodiadau Tir cyn pen 14 diwrnod i'r trafodiad
- Yng Nghymru ac yn yr Alban, mae'r Dreth Trafodiadau Tir (LLT) a'r Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (LBTT) yn cael eu gweinyddu gan Lywodraethau Cymru a'r Alban.
- Gall rhyddhad rhag cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr gael ei hawlio drwy ddefnyddio'r llythyren gategori berthnasol o ran cyfraniadau Yswiriant Gwladol wrth redeg y gyflogres.
- Gall rhyddhad rhag Lwfans Cyfalaf Uwch gael ei hawlio drwy ddidyniadau oddi wrth eich elw, un ai drwy'ch Ffurflen Dreth Partneriaeth os ydych yn bartner, neu drwy Ffurflen Dreth y Cwmni os ydych yn gwmni cyfyngedig.
- Gall rhyddhad rhag Lwfans Strwythurau ac Adeiladau Uwch gael ei hawlio un ai drwy'ch Ffurflen Dreth Partneriaeth os ydych yn bartner, drwy Ffurflen Dreth y Cwmni os ydych yn gwmni cyfyngedig, neu drwy Ffurflen Dreth Hunanasesiad os ydych yn unig fasnachwr.
- Gall rhyddhad ardrethi busnes neu ryddhad ardrethi annomestig gael ei hawlio drwy'r awdurdod lleol perthnasol.

# Rhagor o wybodaeth

# Cwestiynau ac atebion

## Sut mae Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ddiwydiannol Fodern?

Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol Fodern wedi cyfuno Parthau Buddsoddi a Phorthladdoedd Rhydd o dan yr un faner newydd o 'Parthau Strategaeth Ddiwydiannol', ac wedi ei osod yng nghanol cenhadaeth twf y llywodraeth.

Bydd Parthau Buddsoddi a Phorthladdoedd Rhydd yn parhau i ganiatáu twf economaidd drwy'r DU drwy ledaenu cyfleoedd buddsoddi wedi'u targedu i bob cenedl ac ardal. Yn ogystal bydd yn hybu buddsoddiad newydd yn y sectorau sy'n hanfodol ar gyfer y Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y DU.

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Parthau Buddsoddi a Phorthladdoedd Rhydd?

Tra bo Parthau Buddsoddi a Phorthladdoedd Rhydd yn rhan o'r un polisi bras, mae rhai gwahaniaethau clir a phwysig rhwng y ddwy raglen:

- Mae gan Borthladdoedd Rhydd bwyslais ar adfywio tiroedd llwyd o fewn porthladdoedd a'u cefnwlad, drwy fanteisio ar y strwythurau o'r radd flaenaf sydd ym mhorthladdoedd y DU, a gweithdrefn arbennig y tollau, er mwyn denu buddsoddiad sy'n blaenoriaethu masnach.
- Mae Parthau Buddsoddi yn canolbwyntio ar feithrin clystyrau sydd wedi'i sefydlu eisoes, a chlystyrau newydd. Maent yn blaenoriaethu 5 prif sector, ac yn canolbwyntio ar sefydliadau ymchwil gyda'r bwriad o hybu Ymchwil a Datblygu ac arloesedd. Nid oes agwedd o dollau yn rhan o'r cynnig Parthau Buddsoddi.

**Yw'r rhyddhadau treth yn y Parthau Buddsoddi yn wahanol i'r rhai yn y Porthladdoedd Rhydd?** Bydd y llywodraeth yn cynnig yr un rhyddhadau treth yn y Parthau Buddsoddi ac yn y Porthladdoedd

Rhydd er mwyn bod y ddwy raglen yn cydlynu.

## A allaf hawlio rhyddhadau treth mewn unrhyw Barth Buddsoddi?

Na, gallwch ond hawlio'r rhyddhadau treth o fewn safle treth arbennig Parth Buddsoddi dynodedig. Ar hyn o bryd, mae pedwar Parth Buddsoddi yn Lloegr wedi optio i gael safleoedd treth: Awdurdod Maerol Cyfunedig Gogledd-ddwyrain Lloegr; Gorllewin Canolbarth Lloegr; Dinas-Ranbarth Lerpwl; a Dwyrain Canolbarth Lloegr. Cafodd safleoedd yn y Parthau Buddsoddi sydd yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Dinas-Ranbarth Lerpwl eu dynodi a'u rhoi ar waith ar 8 Ebrill 2024. Cafodd safleoedd treth Parth Buddsoddi Dwyrain Canolbarth Lloegr eu dynodi a'u rhoi ar waith ar 26 Chwefror 2025. Ar hyn o bryd, mae un Parth Buddsoddi yng Nghymru wedi optio i gael safleoedd treth: Sir y Fflint a Wrecsam. Ar 21 Tachwedd 2025, dynodwyd safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

**Ar hyn o bryd, mae dau Barth Buddsoddi yn yr Alban wedi optio i gael safleoedd treth; Dinas-Ranbarth Glasgow a Gogledd Ddwyrain yr Alban. Cafodd safleoedd treth Parth Buddsoddi eu dynodi ar 26 Chwefror 2025.**

## Am ba hyd mae'r rhyddhadau treth ar gael?

Ar 21 Mai 2024, daeth deddfwriaeth i rym oedd yn golygu bod busnesau cymwys mewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi yn gymwys i hawlio rhyddhadau treth o'r dyddiad y dynodwyd y safle treth arbennig hyd at 30 Medi 2034. Yn dilyn y newid hwn, bydd meini prawf cymhwystra eraill y rhyddhadau treth ar gyfer Parthau Buddsoddi yn parhau heb eu newid.

## Cwestiynau Pellach

Er mwyn holi am Barthau Buddsoddi CThEF yn gyffredinol, cysylltwch ag [investmentzonesprogramme@hmrc.gov.uk](mailto:investmentzonesprogramme@hmrc.gov.uk)

Ar gyfer ymholiadau ehangach am Barthau Buddsoddi, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

# Cysylltiadau o ran arweiniad

Am wybodaeth gyffredinol ynghylch Parthau Buddsoddi, ewch i wefan

[Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol \(MHCLG\)](#)

Mae'r tudalennau arweiniad canlynol yn dangos sut i hawlio'r rhyddhadau treth mewn safleoedd treth arbennig:

- [Gwirio a allwch hawlio rhyddhad rhag Treth Dir y Tollau Stamp mewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi neu Borthladdoedd Rhydd](#) - mae hyn yn berthnasol i safleoedd treth mewn Porthladdoedd Rhydd yn Lloegr, a Pharthau Buddsoddi yn Lloegr
- [Gwirio a allwch hawlio rhyddhad rhag Treth Trafodiadau Tir mewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi neu Borthladdoedd Rhydd](#) – mae hyn yn berthnasol i safleoedd treth mewn Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru a Pharthau Buddsoddi yng Nghymru
- [Gwirio a allwch hawlio rhyddhad Yswiriant Gwladol mewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi neu Borthladdoedd Rhydd](#)
- [Gwirio a allwch hawlio'r lwfans cyfalaf uwch mewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi neu Borthladdoedd Rhydd](#)
- [Gwirio a allwch hawlio rhyddhad lwfans strwythurau ac adeiladau uwch mewn safleoedd treth arbennig Parth Buddsoddi neu Borthladd Rhydd](#)
- Am wybodaeth am Parthau Buddsoddi yng Nghymru, ewch i: [Rhaglen Parth Buddsoddi | LLYW.CYMRU](#)
- [Ar gyfer Parthau Buddsoddi yn yr Alban, ewch i: Investment Zones - Cities and regions - gov.scot](#)